Ionawr 2017

THE WELSH NHS CONFEDERATION
CONFFEDERASIWN GIG CYMRU

# "Ein Cymuned": Deg gweithred i gefnogi gofal sylfaenol yng Nghymru

Cred Fforwm Polisi Conffederasiwn GIG Cymru na allwn fforddio oedi gydag ymdrechion i ailffurfio gwasanaethau sy'n darparu gofal pobl, gan gryfhau darpariaeth gofal sylfaenol a chymunedol.

Mae gofal sylfaenol a chymunedol yn cwmpasu ystod o wasanaethau yn cynnwys, ond nid yn unigryw i, feddygon teulu, nyrsys ymarfer cyffredinol, fferyllfa, deintyddiaeth, clinigau arbenigol, optometreg, nyrsys cymunedol ac ardal, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, timau iechyd meddwl, timau hybu iechyd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, deietegwyr, therapyddion iaith a lleferydd, podiatryddion, gwaedwyr, parafeddygon, timau iechyd y cyhoedd, timau adsefydlu, gweithwyr cymdeithasol, staff arall awdurdodau lleol a phawb sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli mewn sefydliadau gwirfoddol sydd yn helpu i fodloni anghenion iechyd a lles pobl yn ein cymunedau.

Mae rhai gwasanaethau'n cael eu defnyddio'n uniongyrchol gan y GIG neu Awdurdodau Lleol tra bod gan eraill gytundebau contract gyda Llywodraeth Cymru (ymarfer cyffredinol, fferyllfa, deintyddiaeth ac optometreg). Gall yr ystod eang o drefniadau cyllid a llywodraethu sy'n cwmpasu gofal sylfaenol a chymunedol effeithio ar yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

## Er mwyn sicrhau sector gofal sylfaenol a chymunedol cynaliadwy, mae'r Fforwm yn gofyn i Aelodau'r Cynulliad ystyried a chefnogi'r blaenoriaethau canlynol:

1. **Gweledigaeth:** Annog datblygiad gweledigaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, gyda gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau traws-sector yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal integredig, sy'n canolbwyntio ar y person yn agosach at y cartref a'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni hyn. Mae angen datblygu dull ataliol, lle mae gan bobl fynediad i'r gofal iawn, ar yr adeg iawn, yn y lle iawn ac wedi ei gefnogi gan y bobl iawn.

2. **Gofal integredig:** Cefnogi datblygiad gweithlu medrus, disgybledig mewn gofal sylfaenol a chymunedol, sydd yn gallu gweithio gydag unigolion, gofalwyr a theuluoedd. Dylai Llywodraeth Cymru, a'r holl sectorau cyhoeddus, hybu diwylliant cydweithredol sy'n pwysleisio gwaith tîm ar draws ffiniau sefydliadol, yn cynnwys y trydydd sector a darparwyr trydydd parti, ar draws gwasanaethau a phroffesiynau i ddarparu gofal cydgysylltiedig sydd yn canolbwyntio ar y person. Bydd dod â gwasanaethau a chyllidebau ynghyd yn cefnogi gofal integredig.

3. **Ymgysylltu'r cyhoedd:** Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofal sylfaenol a chymunedol. Cefnogi datblygiad sector gofal sylfaenol a chymunedol wedi ei ailfodelu sydd wedi ei gyd-ddylunio a'i gydgynhyrchu gyda phobl mewn cymunedau ac sydd wedi ei ategu gan fodel cymdeithasol, cyfannol o iechyd, gofal cymdeithasol a lles.  Mae'n rhaid mai'r nod yw gofal integredig sy'n grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain trwy roi mynediad hawdd i wybodaeth, cyngor a chymorth i'r cyhoedd er mwyn cefnogi hunanreolaeth o fewn eu cymunedau.

4. **Cynllunio gweithlu gofal sylfaenol:** Cefnogi ymagwedd strategol system gyfan tuag at gynllunio ar draws gofal sylfaenol a chymunedol, gyda gweithlu amlddisgybledig wedi ei gynllunio. Mae angen i honiadau cynllunio a modelu'r gweithlu mewn gofal sylfaenol a chymunedol ymgorffori modelau gofal sylfaenol newydd, rhai sy'n dod i'r amlwg a rhai mwy cynaliadwy. Bydd meddygon teulu yn ganolog i'r gwasanaeth, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill yn cael eu hintegreiddio i'r gwasanaeth er mwyn iddynt allu darparu'r cymorth angenrheidiol. Dylai'r ymagwedd hon gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector, y sector gwirfoddol ac annibynnol, yn ogystal ag arbenigwyr gofal eilaidd sy'n gweithio yn y gymuned, i ystyried gofynion newidiol y gwasanaeth ac effaith poblogaeth a gweithlu sy'n heneiddio. Dylai cyrff cyhoeddus fuddsoddi mewn gwaith casglu data cywir ac o ansawdd am y gweithlu ar draws holl wasanaethau'r sector cyhoeddus a dylid rhannu data ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

5. **Hybu iechyd a lles:** Dylai ACau, a gweithlu ehangach y sector cyhoeddus, roi arweinyddiaeth genedlaethol ar iechyd y cyhoedd ac ymyrraeth gynnar. Mae'n rhaid i weithredoedd ymgysylltu'r holl weithlu gofal sylfaenol a chymunedol ym maes iechyd y cyhoedd ac ataliaeth. Dylai'r gweithlu â'r sgiliau priodol fod yn llysgenhadon ar gyfer byw'n iach, gan weithio'n gydweithredol i greu'r amodau iawn fydd yn cefnogi pawb i wneud dewisiadau iachach yn ymwneud â ffordd o fyw. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth gyhoeddus a chyfeirio mwy cadarn a allai rymuso unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain.

6. **Iechyd gwledig:** Hybu darpariaeth a hygyrchedd gwasanaethau gofal sylfaenol a chymdeithasol o ansawdd uchel mewn ardaloedd gwledig; gweithio i ddenu'r gweithlu angenrheidiol, a chroesawu modelau gofal newydd ac ymarfer arloesol er mwyn sicrhau nad yw pobl mewn ardaloedd gwledig o dan anfantais. Dylai gwasanaeth gofal sylfaenol a chymunedol integredig ac wedi ei ailfodelu fod yn hyblyg ac yn ymatebol i angen lleol, gyda mynediad cyfartal i bob dinesydd yng Nghymru.

7. **Datblygu'r gweithlu:** Datblygu ffocws hirdymor ac ymagwedd gynaliadwy i recriwtio a chadw mewn gofal sylfaenol a chymunedol er mwyn cael gwelthlu gyda chymysgedd ehangach o sgiliau. Dylai GIG Cymru a Llywodraeth Cymru gefnogi staff presenol gyda chyfleoedd arweinyddiaeth, eu helpu i gael mynediad i hyfforddiant o ansawdd uchel ac ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. Dylid bod cymorth i fuddsoddi mewn sgiliau er mwyn sicrhau gweithlu mwy hyblyg, sydd yn gallu bodloni anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn well mewn amrywiaeth o leoliadau gofal sylfaenol. Dylai addysg a hyfforddiant roi'r arbenigedd i'r gweithlu gefnogi cleifion hŷn ag anghenion cymhleth ac i arwain a chydlynu 'gofal cyfan' cleifion yn y gymuned.

8. **Y gymraeg:** Hybu a buddsoddi yn narpariaeth yr iaith ar draws y sector gofal sylfaenol a chymunedol er mwyn sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar y person yn eu dewis iaith. Bydd angen i hyn gynnwys y Gymraeg yn ogystal ag ieithoedd eraill. Mae darparu gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y rheiny sydd ei angen yn allweddol i ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny. Gwneud gweithio mewn gofal sylfaenol yn yrfa o ddewis i siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod cyfleoedd am addysg a datblygiad ar gael.

9. **Technoleg:** Mae'n rhaid datblygu gofal sylfaenol i gefnogi'r newid i ofal yn y gymuned ac i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau newydd er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad i'r wybodaeth orau i gefnogi hunanofal a rheoli cyflyrau hirdymor. Mae'n hanfodol bod systemau'n cael eu hintegreiddio rhwng gofal eilaidd a sylfaenol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n effeithiol rhwng yr holl bartneriaid er mwyn cefnogi pobl yn eu cymuned.

10. **Ariannu gofal sylfaenol:** Ymrwymo i sector gofal sylfaenol sydd yn arloesol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn defnyddio asedau ac adnoddau mewn ffyrdd cynaliadwy, ond sydd hefyd wedi ei ariannu'n iawn. Dylid darparu cynllun ariannu hirdymor ar gyfer gofal sylfaenol, yn cynnwys gwasanaethau ataliol a buddsoddi mewn seilwaith, er mwyn sicrhau bod y sector gofal sylfaenol yn gynaliadwy yn y dyfodol a bod ganddo'r adnoddau i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y person. Er mwyn creu'r gwasanaethau iawn, mae'n rhaid i ni ddeall demograffeg ein cymunedau yn well. Mae'n golygu gweithio gyda grwpiau cymunedol a thrydydd sector sydd â data a gwybodaeth sylweddol am sawl maes, yn cynnwys grwpiau agored i niwed nad oes ganddynt lais yn aml.

Mae sefydliadau ledled Cymru wedi dod ynghyd trwy Fforwm Polisi Conffederasiwn GIG Cymru i amlinellu'r blaenoriaethau allweddol hyn ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol. Mae'r sefydliadau canlynol yn ardystio'r blaenoriaethau hyn:

abpi – Bringing medicines to life / Dod a meddyginiaeth i fywyd – Cymru | Wales

ADSS Cymru – Leading Social Services in Wales / Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

BASW Cymru – British Association of Social Workers Cymru

BDA – The Association of UK Dietitians

British Red Cross

cyngor ar bopeth / citizens advice

British Heart Foundation Cymru

Gofal Arthritis / Arthritis Care

Children in Wales / Plant yng Nghymru

Comisiynydd y Gymraeg / Welsh Language Commissioner

Cartrefi Cymunedol Cymru / Community Housing Cymru

Chartered Society of Physiotherapy / Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

College of Occupational Therapists / Coleg Therapyddion Galwedigaethol

Learning Disability Wales / Anabledd Dysgu Cymru

disability wales / anabledd cymru

Gofal – Thinking Differently

Marie Curie – Gofal a chefnogaeth drwy salwch terfynol / Care and support through terminal illness

Mind Cymru – for better mental health / o blaid gwell iechyd meddwl

MS Multiple Sclerosis Society Cymru

Ni yw Macmillan. Cymorth Canser / We are Macmillan. Cancer Support

The Royal College of Surgeons of Edinburgh

Royal Pharmaceutical Society Wales / Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru

Royal College of Speech & Language Therapists

Royal College of Surgeons – Advancing Surgical Care

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru / Royal College of Nursing Wales

Royal College of Physicians / Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

RCPCH – Royal College of Paediatrics and Child Health Wales / Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant Cymru – Leading the way in Children's Health

The Society of Radiographers

Samaritans Cymru

RC Psych – Royal College of Psychiatrists

RNIB Cymru – Yn cefnogi pobl â cholled golwg / Supporting people with sight loss

The Welsh NHS Confederation / Conffederasiwn GIG Cymru

WLGA • CLILC

Welsh NHS Confederation
Tŷ Phoenix, 8 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9LJ
Tel: 02920 349850
www.welshconfed.org @WelshConfed